**Papur Tystiolaeth ar gyfer y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ddydd Mercher, 6 Rhagfyr**

**'Cyllid nad yw'n Gyllid Cyhoeddus ar gyfer y Celfyddydau a'r Amgylchedd Hanesyddol'**

## 1. Y cyd-destun

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i sector y celfyddydau a'r sector treftadaeth weithio ar ddod yn fyw cydnerth a chynaliadwy yn ariannol. Mae'r pwysau'n parhau ar gyllidebau ym maes llywodraeth leol ac ar gyllideb Llywodraeth Cymru, mae llai o arian Loteri ar gael bellach ar gyfer 'achosion da', ac mae ansicrwydd o ran ein gallu i fanteisio ar raglenni'r UE. Mae hyn oll yn pwysleisio'r angen i fynd ati ar fyrder i greu mwy o incwm o ffynonellau eraill.

Pwysleisir y neges hon yn '*Golau yn y Gwyll*', gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant. Nodir bod '*ansicrwydd a phryder gwirioneddol, yn enwedig o ran arian yr UE a'r gostyngiadau yn y cymorth a roddir gan awdurdodau lleol*. *Oherwydd y pwysau hyn, mae'r sector yn colli staff profiadol ac arbenigol, sy'n peryglu ei broffesiynoldeb. Wrth i arian cyhoeddus grebachu, mae angen clir i'r sector diwylliant feithrin ei allu i godi arian, i farchnata ac i greu incwm*'.

Mae'r datganiad yn galw ar y cyrff a noddir gennym i '*annog y sector diwylliant i fod yn fwy rhagweithiol wrth fynd ar drywydd ffurfiau newydd o incwm, wrth ddatblygu ei sgiliau busnes a marchnata, ac wrth fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol. Yn rhan o hynny, dylai'r asiantaethau hyn adolygu a mireinio eu gwasanaethau codi arian a chyngor busnes, er mwyn helpu'r sector i amrywio ei sylfaen incwm'.*

Mae'r datganiad hefyd yn annog sefydliadau yn sector y celfyddydau a'r sector treftadaeth i chwarae rhan fwy gweithredol o ran helpu i fynd i'r afael â materion eraill ym maes polisi cyhoeddus, megis iechyd, addysg, adfywio a threchu tlodi. Mae'n gwneud hynny'n bennaf am fod gan y sector lawer i'w gyfrannu at yr agendâu hynny, ond gall gweithgareddau o'r fath hefyd gynnig cyfle i greu incwm ychwanegol.

## 2. Llythyrau Cylch Gwaith a Chynlluniau Gweithredol

Mae'r Gweinidogion hefyd yn rhoi cryn flaenoriaeth ar greu incwm newydd yn eu llythyrau cylch gwaith blynyddol at y cyrff a noddir gennym, sef Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC), Amgueddfa Cymru − National Museum Wales (AC/NMW), Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LlGC), a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC). Mae bob corff yn mynd ati wedyn i amlinellu yn ei Gynllun Gweithredol sut y bydd yn gweithredu ar y flaenoriaeth honno. Mae gofyniad tebyg yn rhan o Gynllun Busnes blynyddol Cadw. Mae manylion yr adrannau perthnasol ym mhob llythyr Cylch Gwaith i'w gweld yn Atodiad 1.

## 3. Mentrau penodol gan y sectorau

Mae'r adran hon o'r papur yn tynnu sylw at rai o'r prosiectau a'r gweithgareddau penodol y mae Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi yn ymgymryd â nhw er mwyn sicrhau mwy o gyllid nad yw'n gyllid cyhoeddus ar gyfer sector y celfyddydau, y sector diwylliant a sector yr amgylchedd hanesyddol.

### Y Celfyddydau

(i) *Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth*. Y nod yw creu cronfa gynaliadwy a fydd, yn y pen draw, yn ennill digon o log i gynnal rhaglen grantiau flynyddol. Y targed cychwynnol yw codi o leiaf £20 miliwn, a'r nod yw dyfarnu'r grantiau cyntaf yn 2020-21. Byddai'r rhain yn helpu pobl i gymryd rhan mewn cerddoriaeth a byddai'n ategu, yn hytrach nag yn disodli, ffynonellau cyllid sy’n bodoli eisoes. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £1 filiwn o gyllid sbarduno cychwynnol, ac mae wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau sefydlu'r Gronfa fel elusen annibynnol. Bydd yr elusen honno'n cyflogi codwyr arian proffesiynol a fydd yn targedu amrywiaeth eang o ffynonellau. Bwriedir lansio'r Gronfa'n ffurfiol yng ngwanwyn 2018.

(ii) *Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru newydd unedig*. Mae saith ensemble ieuenctid cenedlaethol, sy'n galluogi rhai o'r cerddorion, actorion a dawnswyr ifanc mwyaf dawnus o bob cwr o Gymru i gael hyfforddiant o'r radd flaenaf a phrofiad o berfformio. Yn hanesyddol, fe’u gweinyddwyd gan ddau gorff gwahanol (CBAC a Tŷ Cerdd) a'u cyllido drwy'r awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Mae CCC wrthi ar hyn o bryd, gyda'n cymorth ni, yn goruchwylio'r trefniadau pontio ar gyfer creu’r corff newydd unedig, Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Bydd ganddo Fwrdd Ymddiriedolwyr newydd ac mae’r Bwrdd hwnnw wrthi'n datblygu model busnes newydd. Bydd y corff newydd yn parhau i gael symiau sylweddol o arian cyhoeddus oddi wrth CCC, ond bydd yn dibynnu mwy ar incwm masnachol, ar godi arian ac ar nawdd.

(iii) *Ymddiriedolaethau a Sefydliadau*. Mae denu mwy o gyllid oddi wrth Ymddiriedolaethau a Sefydliadau elusennol yn elfen bwysig o'n strategaeth hefyd. Rydym yn annog CCC i helpu'r sector celfyddydau i wneud rhagor o geisiadau, a cheisiadau uwch eu hansawdd, i ymddiriedolaethau a sefydliadau – gan gynnwys rhai sy'n gweithio ar draws y DU. Ym mis Mawrth 2016, aeth Llywodraeth Cymru ati, ar y cyd â CCC a Celfyddydau a Busnes Cymru, i drefnu symposiwm llwyddiannus gydag ymddiriedolaethau a sefydliadau allweddol a sefydliadau celfyddydol o bob cwr o'r wlad. Aeth Celfyddydau a Busnes Cymru ati'n ddiweddar, gyda chymorth Cyngor y Celfyddydau, i gynnal ail symposiwm.

(iv) *Codi arian:* Mae CCC wedi comisiynu'r ymgynghorwyr Blue Canary i asesu'r sefyllfa o ran codi arian yng Nghymru ac i nodi'r hyn y gellir ei

wneud i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Trafodwyd adroddiad drafft gan Gyngor CCC ym mis Tachwedd a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi yn gynnar ym mis Rhagfyr. Yn ôl pob tebyg, bydd ynddo argymhellion ar sut i gefnogi codwyr arian ar lefel uwch a hefyd sut i gynorthwyo Cyngor y Celfyddydau â'r rôl y gall ef ei chwarae o ran meithrin perthynas amryfal gyrff â'i gilydd. Mae CCC hefyd yn helpu Celfyddydau a Busnes Cymru i ddarparu ei raglen interniaethau codi arian.

(v) *Rhaglen 'Cydnerthedd' CCC:* Yn rhan o raglen 'Cydnerthedd' CCC, mae nifer o'r sefydliadau sy'n cael cyllid craidd oddi wrtho yn cael cymorth pwrpasol bellach i ddatblygu eu strategaethau codi arian. Mae'r cymorth hwnnw'n cynnwys hyfforddiant ar sut i ddatblygu ac ysgrifennu ceisiadau llwyddiannus am gyllid oddi wrth ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol mawr.

<u>Cadw</u>

(i) *Refeniw masnachol*: mae Cadw wedi bod wrthi'n gweithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar wella'i berfformiad masnachol, ac i greu mwy o incwm o'r safleoedd sydd o dan ei ofal. Mae wedi cymryd camau breision ymlaen, gan dorri pob record, o ran creu mwy o incwm drwy wella'i safleoedd a'i gyfleusterau. Mae safleoedd Cadw yn cael incwm drwy daliadau mynediad, manwerthu, aelodaeth, llogi corfforaethol a mentrau masnachol eraill. Yn 2016/17, cafodd Cadw ei flwyddyn fwyaf llwyddiannus erioed. Ymwelodd 4 miliwn â'r safleoedd lle mae ganddo staff a daeth gwerth £6.6 miliwm o incwm i law. Mae'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i warchod ac i ofalu am yr amgylchedd hanesyddol. Yn ystod pob un o'r tair blynedd diwethaf, mae Cadw wedi rhagori ar y targedau uchelgeisiol a osodwyd o ran faint o incwm masnachol a fyddai'n dod i law. Mae wedi gwneud hynny drwy gynnal sawl ymgyrch farchnata, sydd wedi ennill gwobrau, a thrwy gynnal digwyddiadau arloesol er mwyn denu ymwelwyr hen a newydd.

Er enghraifft, dechreuodd yr ymgyrch *Anturiaethau Hanesyddol* yn 2016 drwy osod cerflun mawr o ddraig yng Nghastell Caerffili ar Ddydd Gŵyl Dewi. Llwyddodd yr ymgyrch honno i ennyn diddordeb na welwyd ei debyg o'r blaen, a chyfrannodd at y flwyddyn fwyaf llwyddiannus a gafodd Cadw erioed. O ddechrau'r ymgyrch tan iddi ddod i ben ym mis Medi, talodd cyfanswm o 728,000 o bobl i ymweld â safleoedd Cadw (+3.63% o gymharu â'r flwyddyn gynt) gan greu gwerth £844,000 o incwm (+71.47% o gymharu â'r flwyddyn gynt). Mae gwaddol y dreigiau'n parhau, ar ôl i ddraig benyw a dwy ddraig fach gyrraedd yn ystod ymgyrch *Chwilio am Chwedlau* yng ngwanwyn/haf 2017. Mae'r canlyniadau hyd yma'n awgrymu bod perfformiad masnachol yn parhau i wella a nifer yr ymwelwyr yn parhau i dyfu, gyda'r niferoedd a ymwelodd â'r safleoedd a oedd yn rhan o 'daith y dreigiau' wedi torri pob record.

(ii) *Aelodaeth:* Mae nifer yr aelodau sydd gan Cadw ar ei lefel uchaf erioed − dros 19,000. Ar 26 Mehefin, lansiodd Cadw system ymaelodi ar-lein ac mae, hyd yma, wedi arwain at 858 o aelodau newydd. Yr unigolion eu hunain, yn bennaf, sydd wedi mynd ati i ymaelodi ar-lein, ond mae ceidwaid wedi bod yn treialu hynny ar safleoedd Cadw hefyd. Mae Cadw hefyd yn treialu stondinau ymaelodi yn ystod y cyfnodau prysuraf drwy ddefnyddio staff hyrwyddo proffesiynol.

(iii) *Y prosiect treftadaeth nas cerir:* Yn ddiweddar, arweiniodd Cadw, mewn partneriaeth ag eraill, gais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a arweiniodd at ddyfarnu grant o ryw £750,000 ar gyfer y Prosiect Treftadaeth nas Cerir. Ei nod yw ennyn diddordeb pobl ifanc, tanio'u brwdfrydedd a'u hysbrydoli i ymhél â'u treftadaeth leol. Gan hoelio sylw ar dreftadaeth o'r 19edd a'r 20fed ganrif, sydd, yn aml, yn cael ei hesgeuluso, mae'r cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio i annog pobl ifanc i feithrin eu sgiliau, i ysbrydoli eu creadigrwydd, i danio eu brwdfrydedd dros eu gorffennol ac i feithrin ymdeimlad o falchder yn y man lle maent yn byw.

Y Sector Amgylchedd Hanesyddol ehangach

Mae'r ffaith bod llai o gyllid cyhoeddus ar gael yn golygu bod pob un o'r cyrff treftadaeth cenedlaethol mewn sefyllfa debyg. Ar draws sectorau'r amgylchedd hanesyddol, mae partneriaid yn edrych ar gyfleoedd cyllido newydd, gan wneud hynny'n aml drwy weithio mewn partneriaeth. Dyma rai o'r enghreifftiau:

*(i)* *Partneriaeth strategol Cymru Hanesyddol:* sefydlwyd y bartneriaeth hon ym mis Mai 2017 i feithrin mwy o gydweithio rhwng Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Mae'r bartneriaeth yn gyfle i finiogi ac i roi hunaniaeth fwy clir i waith masnachol y sefydliadau cenedlaethol hyn, ar adeg pan fo cryn bwysau ar arian cyhoeddus. Mae'r bartneriaeth wrthi ar hyn o bryd yn ystyried nifer o fentrau, gan gynnwys datblygu sgiliau, mentrau masnachol, a chydweithio i ddarparu swyddogaethau cefn swyddfa.

*(ii)* *Y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol:* mae'r grŵp hwn yn dod â phenaethiaid cyrff allweddol ym maes yr amgylchedd hanesyddol at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac arferion da ac i ddylanwadu ar bolisi. Mae'r grŵp yn gallu dysgu oddi wrth y profiadau y mae'r partneriaid wedi'u cael wrth fynd ar drywydd amryfal ffynonellau cyllid. Ymhlith y sefydliadau sydd wedi cael cryn lwyddiant wrth sicrhau cyllid nad yw'n gyllid cyhoeddus ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol y mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, y Gymdeithas Tai Hanesyddol, a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

## 4. Marchnadoedd newydd

Ffordd arall i sector y celfyddydau, y sector diwylliant a sector yr amgylchedd hanesyddol arallgyfeirio eu hincwm ac i'w rhoi eu hunain ar seiliau ariannol mwy cadarn yw datblygu marchnadoedd newydd, boed yng Nghymru, y DU neu dramor. Mae Llywodraeth Cymru yn eu cynorthwyo yn hynny o beth mewn ffyrdd gwahanol. Ef enghraifft:

(i) *Ewrop Greadigol:* mae desg Ewrop Greadigol Llywodraeth Cymru yn helpu ein sectorau creadigol a chlyweledol i gael gafael ar gyllid o feysydd diwylliant a chyfryngau rhaglen 'Ewrop Greadigol' yr UE.

(ii) *Rhaglenni cyfnewid diwylliannol a theithiau masnach:* Ym mis Medi 2015, llofnododd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Tsieina Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfnewid diwylliannol. Mae'r memorandwm hwnnw'n hwyluso pob math o gydweithio, gan artistiaid, sefydliadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, busnesau creadigol a sefydliadau addysg uwch o Gymru. Hyd yn hyn, cynhaliwyd dwy daith ddiwylliannol i Tsieina gyda'r nod o feithrin y cysylltiadau hyn. Rydym hefyd yn annog sefydliadau diwylliannol a busnesau creadigol i gymryd rhan yn rhaglen ehangach Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o deithiau masnach, gan gydnabod bod mwy a mwy o botensial i'r sector berfformio, arddangos, a chynnal busnes dramor.

(iii) *Digwyddiadau diwylliannol mawr:* Mae Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau diwylliannol, gan gynnwys digwyddiadau megis Gŵyl y Gelli a Gŵyl y Dyn Gwyrdd, lle mai un o'r amcanion allweddol yw denu pobl o'r tu allan i Gymru; mae digwyddiadau o'r fath yn llwyfan lle gall y sector diwylliant arddangos ei waith i brynwyr a chynhyrchwyr rhyngwladol.

(iv) *Eiddo ar osod a manwerthu gan Cadw:* mae Cadw yn parhau i ddatblygu amryfal fentrau newydd er mwyn creu incwm. Er enghraifft, wrth fuddsoddi £5.9 miliwn er mwyn gwella'r profiad a gynigir i ymwelwyr yng Nghastell Harlech, aed ati i ddatblygu pum rhandy hunanddarpar moethus, yn ogystal â chaffi a chanolfan ymwelwyr newydd sydd â chyfleusterau manwerthu gwell. Mae cyfleoedd eraill i ddarparu llety gwyliau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd ger Castell Gwyn a Llys a Chastell Tre-tŵr, gan weithio gyda dylunwyr mewnol o Gymru.

## 5. Technoleg ddigidol

Rydym yn cydnabod hefyd fod technoleg ddigidol yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r sector diwylliannol a sector yr amgylchedd hanesyddol arallgyfeirio eu hincwm. Cydnabyddir hynny yn 'Golau yn y Gwyll': *'Wrth edrych i'r dyfodol, mae technoleg ddigidol yn gyfle enfawr i'r sector creadigol a diwylliannol. Mae*

*angen iddo wneud mwy i hyrwyddo a rhannu’r hyn sydd ganddo i’w gynnig, ac i fanteisio ar ei Eiddo Deallusol'.*

Yr her yw harneisio grym technoleg ddigidol er mwyn ehangu mynediad a chynnig mwy o gyfleoedd i gyfranogi (e.e. ffrydio byw), gan fanteisio ar yr un pryd, pan fo hynny'n briodol, ar botensial y dechnoleg honno i greu incwm. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchion a syniadau arloesol, ond hefyd weithgareddau rheolaidd fel gwerthu tocynnau a phrynu cynhyrchion ar-lein. Dyma ambell enghraifft o'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal:

(i) *'Cronfa Arloesi Digidol' CCC:* partneriaeth yw hon rhwng Cyngor y Celfyddydau a'r Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA). Ei nod yw cyllido a hyrwyddo syniadau newydd, gan gynnwys syniadau sydd â'r potensial i greu refeniw, gan ddefnyddio technoleg ddigidol.

(ii) *Partneriaethau CCC gyda BBC Wales a S4C:* mae'r rhain yn hoelio sylw ar sgiliau digidol, yn benodol sut y gall CCC gefnogi technoleg ar gyfer cynnwys ffurf fer (gan unigolion a sefydliadau) a thechnolegau Realiti Estynedig a Rhith-wirionedd, drwy brosiect sy'n canolbwyntio yn y lle cyntaf ar yr Eisteddfod Genedlaethol.

(iii) *Culture UK*: Mae CCC yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau celfyddydau eraill y DU a'r BBC drwy Culture UK. Ymhlith yr enghreifftiau o waith o'r fath y mae'r ballet diweddar P.A.R.A.D.E ar BBC4 a diwrnod OperaPassion. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar waith a ariannwyd yn ddiweddar gan 'The Space', corff sy'n dod â sefydliadau celfyddydau, artistiaid a thechnoleg ynghyd er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, gan ddefnyddio sgiliau digidol a'r cyfryngau. Mae'r Space yn cefnogi sefydliadau fel Sinfonia Cymru i ddefnyddio technoleg ddigidol i ddarlledu'n fyw ar Facebook, er mwyn i'w repertoire cyfoes ac arloesol gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

## 6. Casgliad

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y celfyddydau, diwylliant a'r amgylchedd hanesyddol yn hanfodol bwysig, ac yn sectorau y dylid parhau i'w cefnogi ag arian cyhoeddus. Wedi dweud hynny, mae'n cydnabod bod cryn botensial ym mhob un o'r sectorau hyn i leihau eu dibyniaeth gyffredinol ar gyllid cyhoeddus drwy greu mwy o incwm o ffynonellau eraill, drwy ddatblygu cynhyrchion newydd a thrwy elwa ar farchnadoedd newydd.

Mae hyn yn golygu bod angen i Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau barhau i helpu'r sectorau hyn i ddatblygu eu sgiliau masnachol a'u sgiliau codi arian, a'u gweithgareddau marchnata a chysylltiadau cwsmeriaid. Byddem yn croesawu barn y Pwyllgor am gamau eraill y gallem eu cymryd i hyrwyddo'r agenda hon.

**Atodiad**

**Llythyrau Cylch Gwaith (2017/18)**

Cyngor Celfyddydau Cymru

*'...*barhau i weithio i fireinio eich gwasanaethau datblygu busnes i gynorthwyo eich cleientiaid i wneud y gorau o’r cyllid nad yw’n gyllid cyhoeddus. *Mae hyn yn cynnwys gwaith i sicrhau mwy o arian gan sefydliadau ac ymddiriedolaethau elusennol a thrwy roddion unigol a chorfforaethol...rwyf hefyd yn gofyn ichi gydweithio â’r sefydliadau sy’n rhan o’ch portffolio i lunio cynllun wedi’i deilwra i ddatblygu eu sgiliau busnes a’u sgiliau marchnata, gyda thargedau blynyddol clir i gynyddu’r incwm a gynhyrchir ganddynt eu hunain.'*

Amgueddfa Cymru-National Museum Wales

*'Mae ...hefyd yn hanfodol bod ein cyrff diwylliannol yn parhau i fynd ar ôl buddsoddiadau ac yn eu denu o ffynonellau cyllido ehangach i ychwanegu at y Cyllid Grant craidd oddi wrth Lywodraeth Cymru'.*

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

*'...byddwn yn disgwyl iddi ychwanegu at y cyllid cymorth grant y mae'n ei gael oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy sicrhau cynnydd sylweddol ym maint y cyllid a ddenir o ffynonellau eraill.'*

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

*'Mae hefyd yn hanfodol bod ein cyrff treftadaeth yn chwilio am fuddsoddiad ac yn ei ddenu o ystod ehangach o ffynonellau ariannu er mwyn ychwanegu at yr arian a roddir gan Lywodraeth Cymru... (felly) hoffwn i chi gynnwys cynllun ennill arian yn eich Cynllun Gweithredol*.'